# AD-ARGRAFFIADAU GWASANAETH LLYFRGELL CLWYD

## gan MARIAN ROBERTS

DDECHRAU mis Rhagfyr 1994 cyhoeddodd Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth Cyngor Sir Clwyd y bymthegfed gyfrol yn ei gyfres o ad-argraffiadau *(gweler diwedd yr erthygl am wybodaeth fanylach)*. Bu'r gyfres hon o ad-argraffiadau, a gychwynnwyd ychydig dros bum mlynedd yn ôl, yn llwyddiant digamsyniol. Ail-argraffwyd dros chwe mil o gopïau o ddeunydd astudiaethau lleol gwerthfawr a gwerthwyd dros 90% o'r copïau hynny.

Atgynhyrchwyd pob teitl fel copi cywir o'r gwreiddiol, h.y. copi ffacsimili, gydag un ychwanegiad, sef rhestr o'r tanysgrifwyr ar gyfer pob teitl cyfredol. Argreffir pob teitl ar bapur di-asid o ansawdd da wedi ei rwymo mewn clawr caled a gyda siaced lwch wedi ei chynllunio yn arbennig. Gydag un neu ddau o'r teitlau cynigiwyd rhwymiad lledr lle roedd hynny'n addas.

**Pam cychwyn y fenter?**

Mae hen ddihareb Ladin yn dweud mai 'rheidrwydd ydi mam dyfeisgarwch' ac yn sicr roedd elfen o hynny ym mhenderfyniad y Gwasanaeth yn 1987 i fentro i mewn i'r byd cyhoeddi. Un o'r prif gymhellion oedd angen y Gwasanaeth i gynyddu ei incwm mewn modd a fyddai'n gost-effeithiol. Rhaid oedd gofalu nad oedd y fenter yn tynnu gormod oddi ar weithgarwch ac adnoddau eraill y Gwasanaeth.

Roedd y dewis o adnoddau astudiaethau lleol yn fan naturiol iawn i ddechrau chwilio, a hynny am amryw o resymau:

- roedd y teitlau wrth law ac ar gael o fewn ein gwasanaeth;
- roedd yr atborth gan ein llyfrgellwyr yn sôn am angen oedd eisiau ei diwallu. Roedd y defnydd o adrannau astudiaethau lleol yn ein llyfrgelloedd yn cynyddu a rhai o'r ffynonellau yn dirywio o ran cyflwr ac roedd yna berygl na fyddai rhai ohonynt ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd;
- wrth ein gwaith bob dydd roedd gennym gysylltiad a gwybodaeth am gwsmeriaid posibl.

O'r cychwyn cyntaf gwnaethpwyd penderfyniad i beidio cyhoeddi deunydd gwreiddiol. Teimlem y byddai'r gost o ddarganfod gwaith gwreiddiol, talu breindal, trafod gyda'r awdur a marchnata cynnyrch oedd eto heb ei brofi, yn ormod o bwysau ar amser staff ac yn ormod o faich gweinyddol. Yn ychwanegol roeddem yn awyddus i beidio cael stoc ar ein dwylo — profiad cyffredin i lyfrgelloedd eraill a fentrodd i'r maes. Ac felly y bu i Wasanaeth Llyfrgell Clwyd lansio y gyfrol gyntaf yn y gyfres, sef *Buckley and District* gan Thomas Cropper, cyfrol a werthwyd yn gyfan gwbl o fewn tri mis o'i chyhoeddi.

**Amcanion y fenter**

O'r cychwyn cyntaf roedd gan y fenter amcanion eglur, sef:

- creu incwm, ar ôl i gostau'r fenter gael eu talu;
- sicrhau fod ffynonellau prin astudiaethau lleol ar gael;
- ail-gydio a chryfhau ein cysylltiadau â'r gymuned.

Gosodwyd targed o geisio gwerthu pob copi yn y gyfres o fewn chwe mis i'r dyddiad cyhoeddi. Cyrhaeddwyd y targed yma gan un ar ddeg allan o'r pedwar ar ddeg o deitlau a gyhoeddwyd hyd yma.

Mae'r dewis o deitlau i'w hailgyhoeddi yn nwylo tîm o staff sy'n gweithio mewn gwahanol ardaloedd o Glwyd, gyda staff eraill yn bwydo syniadau i'r tîm hwnnw. Ar wahân i deitlau sy'n ymwneud ag ardaloedd penodol megis *Handbook of the Vale of Clwyd; History of Abergele and District;* a *Historic Notices of Flint,* cyhoeddwyd un neu ddau deitl gwahanol eu hapêl, megis *The Garden Book* gan Syr Thomas Hanmer, a ysgrifennwyd yn 1659 a'i gyhoeddi yn 1933 am y tro cyntaf. Teitl arall gwahanol oedd *The River Dee* gan J. S. Howson, cyfrol a gyhoeddwyd gyntaf yn 1875. Ail-gyhoeddwyd hefyd un o lyfrau enwog Thomas Pennant, sef *The History of the Parishes of Whiteford and Holywell,* cyfrol a gyhoeddwyd gyntaf yn 1796, ddwy flynedd cyn marwolaeth yr awdur. Ar gyfer yr ail-argraffiad yma ychwanegwyd cyflwyniad gan Paul Evans sy'n awdurdod ar Pennant gan amlinellu statws Pennant fel awdur, teithiwr a sŵolegwr.

Un o'r meini prawf ar gyfer dewis teitl yw gwerth y teitl o safbwynt astudiaethau lleol. Teitl sydd â galw mawr amdano ond sydd yn andros o anodd, yn wir sy'n amhosibl cael copïau ohono, a ystyrir fel arfer. Mae'r teitlau hyn fel arfer allan o reolau hawlfraint, ac felly nid oes rhaid trafod na thalu breindal. Ar ôl dewis teitl rhaid edrych wedyn ar y gwerthiant posibl ac at bwy y dylid anelu y strategaeth farchnata. Rhaid hefyd ystyried a yw'r testun ei hun yn ddiddorol ac yn addas o ran diwyg i'w ail-argraffu.

Mae'r gwasanaeth yn anelu at gyhoeddi dau deitl bob blwyddyn. Ystyrir bod yr elfennau canlynol yn allweddol i'r patrwm cyhoeddi:

- cyhoeddi pob teitl yn argraffiad cyfyngedig, rhifedig. Profwyd fod hyn yn strategaeth dda ar gyfer marchnata;
- datblygu'r 'arddull tŷ' a fyddai'n cael ei adnabod ar draws gwlad;
- sicrhau tanysgrifiadau a thaliadau ymlaen llaw gan unigolion a sefydliadau gan gynnig pris gostyngol am y blaendal a hefyd cyhoeddi enwau'r tanysgrifwyr fel atodiad i bob cyfrol.

Nid oes dwywaith nad yw'r strategaeth farchnata yma wedi gweithio — mae pawb yn hoffi bargen (y pris gostyngol), cael ei enw mewn print yn y rhestr tanysgrifwyr, a bod y cyfrolau — yn enwedig y rhai â rhwymiad lledr — yn ddeniadol fel anrhegion.

Yn ganolog i'r holl fenter roedd y cysyniad ynglŷn â'r penderfyniad i argraffu neu beidio (ac, yn wir nifer y copïau) — roedd hynny'n hollol ddibynnol ar dderbyn y nifer digonol o danysgrifiadau cyn mentro ymlaen i argraffu.

**Strategaeth Gwerthu**

Mae'r gwaith o werthu y gyfrol nesaf yn cychwyn gyda ffurflen hysbysebu ddwyieithog sy'n disgrifio'r gyfrol ac sydd hefyd yn gwahodd pobl i danysgrifio. Mae'r ffurflenni ar gael ym mhob llyfrgell ac yn ogystal cânt eu hanfon drwy'r post i sefydliadau ac unigolion y gwyddys bod ganddynt ddiddordeb. Cefnogir yr ymgyrch yma gyda datganiadau i'r wasg, arddangosfeydd mewn llyfrgelloedd, sgyrsiau radio a chysylltiadau personol rhwng y staff a'u cwsmeriaid — elfen bwysig a gwerthfawr iawn wrth farchnata ein cynnyrch. Targedir yn arbennig sefydliadau hanes lleol ac ysgolion. Mae'n wir bod y math yma o farchnata yn llyncu amser ond ar hyd y blynyddoedd mae wedi profi yn ffordd lwyddiannus o gyrraedd y nod.

Pan ddaw dyddiad y cyhoeddi fe drefnir noson lansio gyda derbyniad swyddogol gan fod hyn yn gyfle i ddiolch i'r staff a hefyd i sicrhau cyhoeddusrwydd ychwanegol, sy'n hanfodol i werthu y copïau sydd ar ôl. Os oes yna gopïau heb eu gwerthu

*(parhad ar dudalen 13)*



*Dyma un o'r deg o luniau lliw gwreiddiol sydd yn* The Cambrian Popular Antiquities of Wales, *gan Peter Roberts.*